

MYNEDIAD AT WASANAETHAU CYNLLUNIO

CYNGOR CYNLLUNIO

Ni fydd swyddogion cynllunio'n bresennol yn Neuadd y Sir i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r uchod. Rydym yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio, lle gallwn gynnig arweiniad ar dderbynadwyedd eich cynnig. Gellir cyflwyno'r ffurflen yn electronig drwy [Borth Fy Sir Fynwy](#) neu fe allwn anfon ffurflen atoch drwy e-bost/drwy'r post. Os oes gennych ymholiad cyffredinol neu os hoffech drafod yr uchod yn fanylach, gallwch siarad â'n swyddog Cynllunio ar Ddyletswydd drwy ffonio 01633 644880.

CYFLWYNO CEISIADAU CYNLLUNIO

Os ydych yn cyflwyno cais cynllunio, byddem yn eich annog i wneud hynny drwy ddefnyddio'r Porth Cynllunio. Fel arall, gallwch anfon eich ceisiadau atom drwy e-bost neu'r post.

TALU AM GAIS CYNLLUNIO/GWASANAETH ARALL SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHYNLLUNIO

Ni allwn gymryd taliadau yn Neuadd y Sir. Os bydd angen i chi dalu am gais cynllunio neu am wasanaeth arall fel cyngor cyn gwneud cais, tystysgrifau rhagbrynu/cwblhau, defnyddiwch yr opsiwn **Talu am Wasanaeth** a fydd yn eich galluogi i dalu ar-lein drwy'r wefan. Fel arall, mae modd i chi dalu dros y ffôn trwy ffonio 01633 644355. Bydd hyn yn mynd â chi drwodd i adran Ariannwr y cyngor.

EDRYCH AR GEISIADAU CYNLLUNIO/CHWILIADAU HANES CYNLLUNIO

Ni fydd swyddogion Cymorth Cynllunio ar gael yn Neuadd y Sir i'ch cynorthwyo gydag ymholiadau chwiliadau cynllunio. Gallwch weld ceisiadau ar-lein, drwy ddolen **Gweld Ceisiadau Cynllunio**.

Weithiau dim ond rhybudd penderfynu sydd ar gael, yn enwedig o ran ceisiadau hŷn sydd bellach yn cael eu storio ar ficroffiche. Os yw hyn yn wir ac mae angen i chi weld y lluniadau er enghraifft, cyn belled â'ch bod yn gwybod rhif y cais, gallwn eu hanfon atoch drwy e-bost. Os nad ydych yn gwybod beth yw rhif y cais, gallwn gynnal chwiliad hanes cynllunio ac mae ffi o £50.00 yr awr am y gwasanaeth yma. E-bostiwch ni am fwy o fanylion.

Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae angen i chi weld hen ffeil eich hun sy'n cael ei storio ar ficrofiche yn Neuadd y Sir, anfonwch e-bost atom a gallwn wneud apwyntiad i chi ddod i mewn.

GWNEUD SYLWADAU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

Byddem yn eich annog i gyflwyno sylwadau drwy ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen [Gweld Ceisiadau Cynllunio](#). Wrth weld y cais, fe welwch y botwm 'Gwneud Sylw'. Cwblhewch y meysydd yn ôl yr angen a chyflwyno. Fel arall, gallwch gyflwyno eich sylw drwy e-bost.

DARPARU SAMPLAU MATEROL

Ni ddylid dod â samplau perthnasol i mewn i Neuadd y Sir na'u hanfon atom gan nad oes gennym y gallu storio mwyach. Byddwch gystal â gadael unrhyw samplau ar y safle, a bydd y swyddog Cynllunio sy'n delio â'r cais yn trefnu cyfarfod â chi yno. Fel arall, gallwch e-bostio atom ddetholiadau/dudalennau o lyfryn y gwneuthurwr ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn foddhaol.

RHOI GWYBOD AM DORRI RHEOLAETH GYNLLUNIO

Ni fydd swyddogion Gorfodi Cynllunio ar gael yn Neuadd y Sir i drafod torri rheolaeth gynllunio y gallech fod yn adrodd. Gallwch roi gwybod am achosion o'r fath trwy ddefnyddio [Porth Fy Sir Fynwy](#) neu fe allwch anfon e-bost **atom**.

MANYLION CYSWLLT

Ffôn – 01633 644880

E-bost – planning@monmouthshire.gov.uk

Rheoli Datblygu

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir, Rhadyr, BRYNBUGA .

C:\Users\Bailey.LS\Desktop\Public and Reception 2022 (1) Welsh.docx

